

At Weinidogion Cymru,

Dyletswyddau Adrodd Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013

Yn unol â'r dyletswyddau o dan adrannau 7 (3) a 10 (2) Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013, ceir adroddiad blynyddol Bro Morgannwg isod.

<p>Y camau gweithredu a gymerir i hyrwyddo teithiau teithio llesol</p>	<ul style="list-style-type: none">- Mewn partneriaeth â Sustrans ac ICC, bu'r Cyngor yn gweithredu cynllun o'r enw 'Sustrans Active Travel Journeys' lle y bu'n gweithio gyda 4 ysgol gynradd er mwyn cyflenwi gwahanol fentrau fel hyfforddiant ar Sgwteri, Beiciau, CPT a Chynnal a Chadw Beiciau. Bydd rhagor o ysgolion cynradd ac uwchradd yn cymryd rhan eleni.- Trwy ei broses ymgynghori ERM, gwnaed cyflwyniadau i wahanol grwpiau, gan gynnwys y Cyngor Ieuencid, y Bwrdd Gwasanaethau Lleol, adrannau mewnol, grwpiau anabl ayyb a derbyniodd y Cyngor ymateb rhesymol drwy ei broses ymgynghori (140 o ymatebion).-
<p>Y camau gweithredu a wnaed i sicrhau llwybrau teithio llesol newydd a chyfleusterau a gwelliannau</p>	<ul style="list-style-type: none">- Disgwylir i'r holl gynlluniau datblygu o fewn Bro Morgannwg gyflawni seilwaith Teithio Llesol ac mae swyddogion yn gwneud sylwadau ar yr holl gynlluniau teithio a gaiff eu cyflyru trwy'r broses gynllunio er mwyn sicrhau cyfranogi.- Disgwylir i'r holl ddatblygiadau ddarparu seilwaith trwy naill ai gwaith S278/S38 a/neu gyllid S106. Tua £1 miliwn o gyllid cyfalaf mewnol wedi'i roi i lwybr beicio Cawsai Ynys y Barri, Ffordd Gyswllt Dociau'r Barri – Grant/iau 106 a Datblygwr S278/38 – tua £500 mil- Astudiaethau ar gyfer Cylchfan Biglis, llwybr beicio o'r Barri i Ddinas Powys, y Merrie Harrier i Esgair Cogan a Llandochoau a Phenarth, Weycock Cross i

	<p>Faes Awyr Caerdydd tua £50 mil</p> <ul style="list-style-type: none"> - Cynllun ffordd newydd Glannau Dŵr y Barri i gynnwys Teithio Llesol. - Cafodd llawer o gynlluniau eraill eu trafod fel rhan o'r broses ddatblygu i'w chyflawni yn y dyfodol yn unol â Chynllun Trafnidiaeth Lleol mabwysiedig y Cyngor y ceir adroddiad arnynt wrth iddynt gael eu hadeiladu.
<p>Costau yr aethpwyd iddynt ar gyfer llwybrau a chyfleusterau teithio llesol newydd a gwelliannau i lwybrau teithio llesol presennol a chyfleusterau cysylltiedig yn y flwyddyn ariannol lawn flaenorol</p>	<ul style="list-style-type: none"> - Fel yr uchod a'r isod

Yn ogystal â'r uchod (dewisol):

<p>Gwariant dangosol ar gyfer llwybrau teithio llesol newydd a chyfleusterau perthynol a ariennir neu a ariennir yn rhannol gan drydydd parti.</p>	<ul style="list-style-type: none"> - Mae cynlluniau a weithredwyd yn y flwyddyn ariannol hon o gyllid S106 yn cynnwys: - Cei Jackson s106 – Broad Street Crossing, Y Barri - £69 mil - Penarth Heights s106- <ul style="list-style-type: none"> ▪ Gwaith priffyrdd ar gyfer llwybr Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol: cyrbau wedi'u gostwng a TROau (7453.98) ▪ Croesfan ar Plassey Street/Stryd Fawr – cyfanswm cost y cynllun oedd £27,004 - £8,316 o s106 ynghlwm wrth ddatblygiad Plassey Street, a'r gweddill yn arian cyfatebol gyda chyfraniad Trafnidiaeth Cynaliadwy Penarth Heights ▪ Llwybr troed Coetir a grisiau o Paget Road i Farina Penarth (£40,000) ▪ £33,315 – Croesfan Sebra ar Plassey Street / Glebe Street - Gwesty'r Marine s106 a 7 Paget Road - £32 mil tuag at Gawsai Ynys y Barri - Y Theatr Frenhinol s106 – cynllun ar gyfer croesfan sebra a gwelliannau ar
--	---

	<p>gyffordd Buttrills Road/Heol Holltwn i gysylltu'r safle â chanol y dref - £42,251.25</p> <ul style="list-style-type: none"> - The Grange, Gwenfô s106 - £42,594 ar gyfer troedffordd/llwybr beicio cyswllt coll – cyflwynwyd y cynllun a'i gwblhau. Gwariwyd £35,575.86 yn 2015/16 - Iard yr Hen Orsaf, Sain Tathan – Cynllun ar gyfer gwelliannau i droedffyrdd, croesfannau, goleuadau a safleoedd bws yn Ffordd Silstwn a Chylchfan Sain Tathan yn costio £41,278.16 - Ysbyty Llandochau – Strategaeth Beiciau'r Merrie Harrier – gwaith dichonoldeb £15 mil - Gwenfô - £40 mil tuag at gynllun beicio (arian cyfatebol o'r grant ynghyd ag arian a ddarparwyd rhannol gan Ddatblygwr am gost o tua £140 mil. - HTV Croes Cwrlwys a ddarparwyd yn rhannol gan Metro ac yn rhannol gan ddatblygwr am gost o tua £1.3 miliwn gyda £600 mil ychwanegol yn cael ei weithredu yn 2016/17.
--	---

Gwybodaeth ychwanegol (dewisol)

Mae ceisiadau grant trwy LTF, SRiC, Metro, Bargaen Ddinesig Caerdydd ayyb i gyd yn cynnwys cynigion Teithio Llesol er mwyn galluogi'r Cyngor i wneud y mwyaf o bob trywydd ariannu sydd ar gael.

Rwy'n cadarnhau y caiff yr adroddiad hwn ei gyhoeddi, un unol â'r Arweiniad statudol ar Gyflawni.

Prif Weithredwr